WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwiliad 2008/2009

Medi 2009

**Awdur: KPMG LLP**

# Archwiliad o Ddatganiadau Cyfrifyddu – Adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio

# **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

DRAFT

**Fersiwn drafft yw'r ddogfen hon tra bod trafodaethau pellach gyda'r corff a archwilir ac a arolygir yn yr arfaeth. Mae'n bosibl nad yw'r wybodaeth wedi'i dilysu'n llawn eto ac ni ddylid dosbarthu'r ddogfen hon yn eang.**

Yn amodol ar benderfynu ar y mater a nodir ar dudalen 6, fy mwriad, fel Archwilydd Penodedig, yw cyflwyno Adroddiad Archwilydd diamod ar y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 4 |
| **Adroddiad Manwl** | |
| Yn amodol ar benderfynu ar y mater a nodir ar dudalen 6, nid oes gennyf unrhyw bryderon ynghylch agweddau ansoddol eich arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol | 6 |
| Yn amodol ar benderfynu ar y mater a nodir ar dudalen 6, nid oes camddatganiadau sylweddol nas cywirwyd. | 6 |
| Yn amodol ar benderfynu ar y mater a nodir ar dudalen 6, ni ddisgwyliaf addasu adroddiad safonol yr archwilydd | 6 |
| Ni chanfuwyd unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaeth fewnol. | 7 |
| Nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol gan Safonau Archwilio Rhyngwladol eraill i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt. | 7 |
| nid oes unrhyw faterion archwilio eraill o ddiddordeb llywodraethu i gyflwyno adroddiad arnynt. | 7 |
| **Atodiadau** | |
| 1. Llythyr Cynrychiolaeth Drafft | |
| 2. Crynodeb o gywiriadau i'r datganiad ariannol drafft a chamddatganiadau nas cywirwyd | |
| 3. Crynodeb o eitemau rheolaeth fewnol amherthnasol a<br>Diweddaru crynodeb 2007/08 o eitemau rheolaeth fewnol amherthnasol | |


DRAFT

DRAFT

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r 'Datganiadau o Gyfrifoldebau' a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, yn atebol i unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn

infoofficer@wao.gov.uk

## Crynodeb

1. Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn gyfrifol am baratoi datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig sy'n rhoi darlun teg o'i sefyllfa ariannol fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2009 ac o'i incwm a'i wariant yn y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny. Mae'n ofynnol i mi roi fy marn ar degwch y datganiadau.
2. Cyflwynodd yr Awdurdod Ddatganiad o Gyfrifon i mi ym mis Gorffennaf ac rwyf bellach wedi cwblhau'r archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i raddau helaeth. Ni cheisiaf gael sicrwydd llwyr fod y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod, na sicrwydd eu bod yn gywir ym mhob ffordd, ond yn hytrach mabwysiedir cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad o'r cyfrifon, rwyf yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, h.y. y rhai a allai gamarwain darllenwyr.
3. Rydym yn barnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol ar gyfer yr Awdurdod os ydynt yn werth £309,000 ar gyfer eitemau incwm a gwariant ac eitemau'r fantolen. Nid materion meintiol yn unig sy'n penderfynu a fernir bod eitem yn berthnasol, gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoleiddio a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd gael effaith ar hyn; er enghraifft datgeliadau enillion swyddogion a lwfansau aelodau.
4. Gan fod yr archwiliad wedi'i gwblhau i raddau helaeth, mae'r adroddiad hwn yn nodi'r materion allweddol sy'n codi o'r archwiliad. Rhaid cyfleu'r materion hyn i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yn unol â Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260, cyn rhoi barn ar y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig. Cytunir ar faterion manylach sy'n codi ac argymhellion gyda swyddogion.
5. Mae ISA 260 yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr gyflwyno adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynglŷn â'r materion canlynol cyn iddynt roi barn ar y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:
   - cydberthnasau a allai ddylanwadu ar annibyniaeth yr archwilydd;
   - gwybodaeth am gynllunio archwiliad; a
   - chanfyddiadau'r archwiliad, yn cynnwys safbwyntiau'r archwilydd ar yr agweddau ansoddol ar waith cyfrifyddu ac adrodd yr endid.
6. Cyflwynwyd adroddiad ar y ddau fater cyntaf i chi yn y Cynllun Rheoliadol. Paratowyd yr adroddiad hwn i gyflawni fy nghyfrifoldebau o ran y trydydd pwynt. Dyma fy nghanfyddiadau:
   - Yn amodol ar benderfynu ar y mater a nodir ar dudalen 6, nid oes gennyf unrhyw bryderon ynghylch agweddau ansoddol eich arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol;
   - Yn amodol ar benderfynu ar y mater a nodir ar dudalen 6, tra bod camddatganiadau nas cywirwyd sy’n uwch na’r swm yr ystyriwn yn fân

DRAFT

gamddatganiadau, rydym wedi cytuno â'r rheolwyr fod yr effaith yn amherthnasol i'r datganiad o gyfrifon;

- Yn amodol ar benderfynu ar y mater a nodir ar dudalen 6, ni ddisgwyliaf addasu adroddiad safonol yr archwilydd;
- ni chanfuwyd unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaeth fewnol;
- nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol gan Safonau Archwilio Rhyngwladol eraill i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt; ac
- nid oes unrhyw faterion archwilio eraill o ddiddordeb llywodraethu i gyflwyno adroddiad arnynt.

7. Yn amodol ar benderfynu ar y mater a nodir ar dudalen 6, fy mwriad yw cyflwyno adroddiad archwilydd diamod ar y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig pan fydd yr Awdurdod wedi rhoi'r Llythyr Cynrychiolaeth a nodir yn Atodiad 1 i mi.

DRAFT

## Yn amodol ar benderfynu ar y mater a ddisgrifir isod, nid oes gennyf unrhyw bryderon ynghylch agweddau ansoddol eich arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol

8. Yn ystod yr archwiliad rwyf yn ystyried agweddau ansoddol y broses o gyflwyno adroddiadau ariannol. Rwyf yn gwerthuso'r wybodaeth a ddarperir gan y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i benderfynu a yw'n berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy ac yn hawdd ei deall.
9. Hyd yma, ni phenderfynwyd ar y mater canlynol. Ar adeg drafftio'r adroddiad hwn, rydym mewn trafodaeth gyda rheolwyr yr Awdurdod ynglŷn â'r polisïau cyfrifyddu presennol a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol mewn perthynas â gwrthdroi'r taliadau pensiwn sy'n seiliedig ar Safon Adrodd Ariannol 17 a gynhwysir yn y cyfrif Incwm a Gwariant a rhoi cyfraniadau pensiwn gwirioneddol yn eu lle mewn perthynas â Chynllun Pensiwn newydd Ymladdwyr Tân.
10. Rydym yn gweithio i ddatrys y mater hwn cyn gynted â phosibl a bydd yr wybodaeth ddiweddaraf ar gael i aelodau yn y cyfarfod.

## Yn amodol ar benderfynu ar y mater a ddisgrifir uchod, nid oes gwahaniaethau archwilio sylweddol nas cywirwyd

11. Cyflwynaf adroddiad i chi ar yr holl gamddatganiadau nas cywirwyd heblaw mân gamddatganiadau amlwg (diffinnir mân gamddatganiadau fel rhai sy'n hollol ddibwys, yn unigol neu gyda'i gilydd, yn feintiol a/neu'n ansoddol). Ar sail ein methodoleg safonol, y terfyn ariannol ar gyfer yr hyn a ystyriaf yn fân wall yw £15,000.
12. Dangosir gwahaniaethau archwilio sy'n uwch na'r terfyn hwn yn Atodiad 2. Rydym wedi cytuno gyda rheolwyr nad yw effaith y gwahaniaethau hyn yn berthnasol i'r datganiad o gyfrifon.
13. Dangosir camddatganiadau a gywirwyd yn dilyn yr archwiliad hefyd yn Atodiad 2.

## Yn amodol ar benderfynu ar y mater a ddisgrifir isod, ni ddisgwyliaf addasu adroddiad safonol yr archwilydd

14. Cyflwynaf unrhyw addasiadau arfaethedig i adroddiad safonol yr archwilydd i sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r rhesymau dros yr addasiadau ac yn cael cyfle i roi unrhyw wybodaeth ac esboniadau pellach mewn perthynas â'r mater/materion a arweiniodd at yr addasiad. Mae'r adroddiad yn gwneud sylwadau ar y canlynol:
    - a yw'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn rhoi darlun teg o'r sefyllfa ariannol fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2009 ac o'i incwm a'i wariant yn y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac

DRAFT

a yw'r Datganiad o Reolaeth Fewnol yn cydymffurfio â'r canllawiau perthnasol ac yn gyson â'n gwybodaeth a'n dealltwriaeth o drefniadau'r Awdurdod.

- 

15. Yn amodol ar benderfynu ar y mater a ddisgrifir uchod, ar sail ein gwaith archwilio, ni nodwyd unrhyw faterion a fyddai'n galw am addasu'r farn archwilio.

## Ni chanfuwyd unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaeth fewnol

16. Diffinnir gwendid perthnasol mewn rheolaeth fewnol gan ISA 260 fel 'diffyg o ran cynllunio neu weithredu a allai effeithio'n andwyol ar allu'r endid i gofnodi, prosesu, crynhoi a chyflwyno adroddiadau ar ddata ariannol a data perthnasol arall sy'n arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol'.
17. Fodd bynnag, nid wyf fel arfer yn cyflwyno adroddiad i chi ar wendid perthnasol yr ydych yn ymwybodol ohono, ac y cymerwyd camau priodol i'w gywiro, oni bai bod y gwendid yn arwydd o wendidau ehangach yn yr amgylchedd rheoli cyffredinol a bod risg y gallai gwendidau perthnasol eraill godi.
18. Dylech fod yn ymwybodol nad wyf yn rhoi datganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau a allai fodoli yn y rheolaethau mewnol, nac o'r holl welliannau y gellid eu gwneud, ond dim ond y materion hynny sydd wedi dod i'm sylw o ganlyniad i'r gweithdrefnau archwilio a gynhaliwyd yr wyf wedi ymdrin â hwy. Dangosir eitemau rheolaeth fewnol amherthnasol gan gynnwys ein hargymhellion ar gyfer gwella yn Atodiad 3.
19. Ni chanfuwyd unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaeth fewnol.

## Nid oes unrhyw faterion archwilio eraill y mae'n ofynnol gan Safonau Archwilio Rhyngwladol eraill i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt

20. Mae safonau archwilio eraill yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyfathrebu â chi mewn amgylchiadau penodol eraill gan gynnwys:
    - os byddaf yn amau neu'n canfod twyll, hyd yn oed os nad yw'r effaith bosibl yn berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, oni chaf fy ngwahardd rhag gwneud hynny o dan reoliadau gwyngalchu arian; ac
    - os bydd datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig yr Awdurdod a gwybodaeth arall yn y Datganiadau o Gyfrifon yn anghyson.
21. nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol gan Safonau Archwilio Rhyngwladol eraill i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt.

## Nid oes unrhyw faterion archwilio eraill o ddiddordeb llywodraethu i gyflwyno adroddiad arnynt

DRAFT

22. Mae’n ofynnol i mi hefyd gyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion archwilio o bwys eraill o ddiddordeb llywodraethu fel bod modd i chi gymryd camau priodol.

23. nid oes unrhyw faterion archwilio eraill o ddiddordeb llywodraethu i gyflwyno adroddiad arnynt.

DRAFT

Atodiad 1

# Llythyr Cynrychiolaeth Drafft

(Pennawd llythyr)

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

[Dyddiad]

## Datganiad o Gyfrifon 2008/2009 Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'r archwiliad o ddatganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 er mwyn mynegi barn ynglŷn â pha un a ydynt yn rhoi darlun teg, ym mhob ffordd berthnasol, o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2009 ac o ganlyniadau ei weithrediadau a'i lifau arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y DU - Datganiad o'r Arfer a Argymhellir 2008 (y SORP).

### Sylwadau cyffredinol

Cafodd holl drafodion yr Awdurdod eu hadlewyrchu a'u cofnodi'n briodol yn y cofnodion cyfrifyddu.

Nid oes unrhyw brosiectau cyllideb cyfun yn deillio o unrhyw gytundebau partneriaeth a luniwyd o dan Adran 31 o Ddeddf Iechyd 1999, cyfranogion, mentrau ar y cyd na threfniadau ar y cyd heblaw am y rhai a ddatgelwyd yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â phob amod a osodwyd gan sefydliadau perthnasol sy'n talu grantiau a gall ddisgwyl, yn rhesymol, y symiau grant a gynhwysir yn y cyfrifon.

Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â phob agwedd ar y cytundebau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i addasu'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig neu ddatgelu'r manylion ynddynt.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig.

Sicrhawyd bod pob llyfr cyfrifon a dogfennau ategol a chofnodion pob cyfarfod o'r Awdurdod ar gael i chi.

DRAFT

Nid oes gan yr Awdurdod gynlluniau na bwriadau a allai newid mewn ffordd berthnasol werth cario neu ddosbarthiad asedau a rhwymedigaethau a adlewyrchir yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Mae'r dulliau mesur, gan gynnwys y rhagdybiaethau cysylltiedig, a ddefnyddiwyd i bennu gwerthoedd teg yn briodol ac wedi eu cymhwyso'n gyson. Mae'r datgeliadau sy'n ymwneud â gwerthoedd teg yn gyflawn ac yn briodol.

Mae effeithiau'r camddatganiadau nad cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a gyda'i gilydd, i'r datganiadau cyfrifyddu yn gyffredinol.

## Asedau

### Cyffredinol

Roedd yr holl asedau a gynhwyswyd ar y fantolen yn bodoli ar ddyddiad y fantolen ac yn eiddo i'r Awdurdod, ac roeddent yn rhydd o unrhyw hawlrym, llyffethair neu arwystl, ac eithrio fel y datgelir yn y cyfrifon. Mae'r fantolen yn cynnwys pob ased diriaethol sy'n eiddo i'r Awdurdod.

### Asedau sefydlog

Mae pob ased sydd dros y lefel deminimis yn cael ei gyfalafu. Cânt eu hailbrisio bob pum mlynedd drwy raglen dreigl. Hefyd, eleni, adolygwyd gwerthoedd asedau o safbwynt amhariad yng ngoleuni'r hinsawdd economaidd bresennol ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol yn unol â hynny. Cyfrifir dibrisiad er mwyn lleihau swm llyfr net pob ased i'w werth gweddillol amcangyfrifedig erbyn diwedd ei oes fuddiol amcangyfrifedig yng ngweithrediadau'r Awdurdod.

### Buddsoddiadau

Roedd yr holl fuddsoddiadau a gynhwyswyd ar y fantolen yn bodoli ar ddyddiad y fantolen ac yn eiddo i'r Awdurdod, ac roeddent yn rhydd o unrhyw hawlrym, llyffethair neu arwystl, ac eithrio fel y datgelir yn y cyfrifon. Mae'r fantolen yn cynnwys yr holl fuddsoddiadau sy'n eiddo i'r Cyngor. Mae buddsoddiadau'r Awdurdod wedi eu hadolygu o safbwynt amhariad ac adlewyrchir unrhyw amhariad o'r fath yn y datganiadau ariannol yn unol â hynny.

### Asedau cyfredol

O'u gwireddu yn ystod gweithrediadau arferol yr Awdurdod disgwylir y bydd yr asedau cyfredol eraill ar y fantolen yn cynhyrchu o leiaf gymaint ag a ddatgenir.  Gwnaed darpariaeth ddigonol yn erbyn pob swm sy'n ddyledus i'r Awdurdod ac y gwyddys ei fod, neu y gellir disgwyl y bydd, yn anadenilladwy.

Ni cheir unrhyw drefniadau balans digolledu ffurfiol nac anffurfiol gydag unrhyw rai o'n cyfrifon arian parod na buddsoddi.

DRAFT

## Rhwymedigaethau

### Cyffredinol

Mae pob rhwymedigaeth wirioneddol a phob rhwymedigaeth wrth gefn wedi ei chofnodi a'i datgelu fel y bo'n briodol, yn ogystal â phob gwarant yr ydym wedi ei rhoi i drydydd partïon.

Nid oes ymgyfreitha yn yr arfaeth a allai beri colled sylweddol i'r Awdurdod, ac nad yw wedi ei ddatgelu yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, naill ai fel rhwymedigaethau cyfredol neu rwymedigaethau wrth gefn.

Mae pob rhwymedigaeth o dan brydlesi cyllidol neu gontractau hurbwrcas wedi ei datgelu yn y cyfrifon.

Ystyriwyd pob budd nas cyllidwyd (megis blynyddoedd ychwanegol dewisol) wrth grynhoi ffigurau Safon Adrodd Ariannol 17 a gynhwyswyd yn y datganiadau cyfrifyddu.

### Darpariaethau

Wedi eu cynnwys o fewn darpariaethau mae swm ar gyfer lymp-symiau cymudo pensiwn wedi'i ôl-ddyddio. Mae'r ddarpariaeth wedi ei chydnabod ar sail ei fod yn debygol y trosglwyddir buddion economaidd yn y dyfodol ac mae'n bosibl gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r rhwymedigaeth.

### Canlyniadau

Ac eithrio fel y datgelwyd yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, ni chafodd trafodion o fath nas cynhelir fel arfer gan yr Awdurdod, nac amgylchiadau eithriadol neu anghylchol effaith berthnasol ar y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn.

### Rheolaeth fewnol

Cydnabyddaf fy nghyfrifoldeb am gynllunio a gweithredu rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod gwallau. Ni fu:

- afreoleidd-dra yn ymwneud â rheolwyr y mae ganddynt rolau pwysig yn y system rheolaeth cyfrifyddu fewnol;
- afreoleidd-dra yn ymwneud â chyflogeion eraill a allai gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol; a
- gohebiaeth gan asiantaethau rheoliadol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio neu ddiffygion o ran arferion adrodd ariannol a allai gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.

## Digwyddiadau ôl-fantolen

Ac eithrio fel y datgelwyd yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, ni fu newidiadau perthnasol ers dyddiad y fantolen sy'n effeithio ar rwymedigaethau ac ymrwymiadau, ac ni fu digwyddiadau na thrafodion sydd, er nad ydynt wedi'u cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, yn ddigon pwysig fel y dylent fod wedi cael eu dwyn i sylw'r archwilydd.

DRAFT

## Sylwadau gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am gyflwyno'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn deg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol priodol.

Cydnabyddwn ein cydgyfrifoldeb am baratoi'r Datganiad o Gyfrifon, sydd wedi'i gymeradwyo gan yr Awdurdod.

Rydym wedi datgelu i chi bob achos hysbys neu bosibl o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau y dylid bod wedi ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Nid oes unrhyw drafodion perthnasol eraill gyda phartïon cysylltiedig (yn ôl diffiniad Safon Adrodd Ariannol 8 a'r SORP), heblaw am y rhai a gofnodwyd ac a ddatgelwyd yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am gynllunio a gweithredu rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll, ac rydym wedi datgelu canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi eu cam-ddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll.

Rydym wedi datgelu wrthych yr hyn a wyddom am bob honiad o dwyll, neu dwyll a ddrwgdybir, sy'n effeithio ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Awdurdod a'r nodiadau cysylltiedig a roddwyd i'r Awdurdod gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr ac eraill.

Rydym wedi datgelu i chi yr hyn a wyddom am dwyll neu dwyll a ddrwgdybir sy'n effeithio ar yr Awdurdod yn ymwneud â:

- y rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu;
- cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
- eraill lle gallai'r twyll effeithio'n berthnasol ar y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Cadarnhawn, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, y gwneir y sylwadau uchod ar sail ymholiadau gyda rheolwyr ac aelodau o staff sydd â gwybodaeth a phrofiad perthnasol (a, lle bo hynny'n briodol, drwy archwilio dogfennau ategol) sy'n ddigon i'n bodloni y gallwn gyflwyno'n briodol bob un o'r sylwadau uchod i chi.

Llofnodwyd gan

| | |
|---|---|
| Swyddog Adran 151 | Aelod Arweiniol |
| Dyddiad | Dyddiad |

DRAFT

Atodiad 2

## Crynodeb o gywiriadau i'r datganiadau cyfrifyddu

| Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|
| Debydu asedau sefydlog: amhariad £199,000<br>Credydu cyfrif addasu cyfalaf £199,000 | Gwrthdroi amhariad i gostau cynnal cyfalafog a gynlluniwyd yn dilyn dyraniadau i orsafoedd tân unigol. |
| Debydu cyfrif addasu cyfalaf £36,407<br>Credydu asedau sefydlog: ychwanegiadau £36,407 | Gwariant ar eitemau heb fod yn gyfalaf wedi ei gynnwys o fewn costau cynnal a gynlluniwyd. |
| Debydu asedau sefydlog £92,430<br>Credydu credydwyr £92,430<br>Debydu cyfrif addasu cyfalaf £67,600<br>Credydu asedau sefydlog: amhariad £67,600<br>Debydu cronfa ailbrisio £24,830<br>Credydu asedau sefydlog: ailbrisiadau £24,830 | Croniadau symiau dyledus ar waith datblygu a wnaed erbyn diwedd y flwyddyn. |
| Debydu cyfrif addasu cyfalaf £50,000<br>Credydu darpariaethau £50,000 | Croniadau ar gyfer rhwymedigaeth yn deillio o dandaliadau pensiwn hanesyddol. |

## Crynodeb gwahaniaethau archwilio nas cywirwyd

| Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|
| Debydu cronfa ailbrisio £42,000<br>Credydu asedau sefydlog: ailbrisiadau £42,000 | Gwrthdroi cydnabyddiaeth enillion ailbrisio ar orsaf dân Biwmares. |
| Debydu dyledwyr masnach £10,128<br>Debydu taliadau ymlaen llaw £7,000<br>Credydu credydwyr masnach £17,128 | Ailddosbarthu dyledion ar y cyfriflyfr credydwyr. |

DRAFT

Atodiad 3

## Crynodeb o eitemau rheolaeth fewnol amherthnasol

| Rhif. | Sylwadau a risg | Argymhelliad | Ymateb Rheolwyr |
|---|---|---|---|
| **1** | **Polisi cyfalafu** | | |
| | Nodwyd nad oedd nifer o eitemau a gynhwyswyd o fewn ychwanegiadau i'r asedau sefydlog yn y flwyddyn o natur cyfalaf.<br>Roedd y rhain wedi eu cynnwys o fewn costau cynnal cyfalafog a gynlluniwyd. | Dylid mabwysiadu proses adolygu ffurfiol i sicrhau mai dim ond gwariant priodol a gyfalafir yn y dyfodol. | Cyhoeddir canllawiau pellach ar beth yw gwariant cyfalaf i staff sy'n gyfrifol am gaffael gwaith cyfalaf ac i staff sy'n gyfrifol am brosesu anfonebau i'w talu.<br>Bydd staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'n cynnal adolygiad o'r holl daliadau cyfalaf a broseswyd i sicrhau bod yr holl anfonebau a dalwyd fel gwaith cyfalaf yn cyd-fynd â'r diffiniad o wariant cyfalaf.<br><br>**Swyddog cyfrifol**<br>Pen gyfrifydd<br>**Dyddiad**<br>Cyhoeddi'r canllawiau erbyn 30 Medi 09<br>Adolygiad chwarterol cyntaf i'w gynnal Medi 09 |
| **2** | **Symiau sy'n ddyledus i gontractwyr** | | |
| | Nodwyd nad oedd gan yr Awdurdod unrhyw broses ar gyfer nodi, fel mater o drefn, symiau dyledus presennol am waith datblygu a'u cyfri rhwymedigaethau presennol. | Dylid sefydlu proses i nodi lefel y symiau sy'n ddyledus i gontractwyr fel rhan o'r gweithdrefnau ariannol diwedd blwyddyn. | Newid gweithdrefnau diwedd blwyddyn i gynnwys cyswllt uniongyrchol gyda'r Adran Ystadau gan staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ganfod lefel y symiau sy'n ddyledus i gontractwyr ar ddiwedd blwyddyn.<br><br>**Swyddog cyfrifol**<br>Pen Gyfrifydd<br>**Dyddiad**<br>Ebrill 2010 |
| **3** | **Amhariad ar gyfer costau heb eu priodoli** | | |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Nid yw costau cynnal cyfalafog wedi eu cynllunio ar hyn o bryd wedi eu dyrannu i orsafoedd tân unigol y maent yn berthnasol iddynt ar y gofrestr asedau sefydlog. O ganlyniad roedd rhai amhariadau anghywir yn y flwyddyn bresennol. | Dylai gwaith cyfalafog i orsafoedd tân gael ei ddyrannu i'r gorsafoedd perthnasol mewn pryd. | Bydd gweithdrefnau diwedd blwyddyn yn cael eu newid i gynnwys dyrannu costau cynnal cyfalafog a gynlluniwyd i orsafoedd tân unigol.<br><br>**Swyddog cyfrifol**<br>Pen Gyfrifydd<br><br>**Dyddiad**<br>Cyfrifon wedi'u diwygio ar gyfer 2008/09, Medi 2009 |
| **4** | **Cytundeb lefel gwasanaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** | | |
| | Drwy gydol y flwyddyn nid oedd unrhyw gyswllt ffurfiol rhwng yr Awdurdod a CBSC ar gyfer darparu gwasanaethau ariannol (yn cynnwys paratoi'r datganiadau ariannol).<br>Er efallai bod contract dealledig wedi deillio o berfformiad parhaus gan yr Awdurdod a CBSC (gyda ffi am wasanaethau a delir i CBSC a hwythau'n darparu'r cyfryw wasanaethau), mae'n dal yn risg sylweddol i'r Awdurdod beidio â chael contract ysgrifenedig ar gyfer gwasanaeth allweddol o'r fath.<br>Mae hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd o anghydfod cytundebol a bwlch o ran disgwyliad yn datblygu rhwng yr Awdurdod a CBSC. | Dylid cytuno ar gontract ffurfiol am y flwyddyn, a bod yr Awdurdod a CBSC yn ei arwyddo. Dylid sefydlu proses ar gyfer adolygiad blynyddol ac ail-negydu contract o'r fath. Yn ddelfrydol, dylai hyn ddigwydd cyn dechrau'r flwyddyn dan sylw. | Er nad oedd unrhyw gontract ffurfiol ar gyfer 2008/09 roedd cyd-drafodaethau wedi eu cynnal cyn i'r contract blaenorol ddod i ben rhwng y Dirprwy Bennaeth Tân a Swyddog Adran 151 CBSC ac roedd cytundeb ar lafar yn ei le y byddai Conwy'n parhau i ddarparu'r un lefel o wasanaethau ariannol am y tair blynedd nesaf.<br><br>Mae'r contract bellach wedi ei arwyddo a bydd y dyddiad adolygu nesaf cyn i'r cytundeb newydd ddod i ben ym Mawrth 2011.<br>**Swyddog cyfrifol**<br>Dirprwy Bennaeth Tân<br>**Dyddiad**<br>Ionawr 2011 |

DRAFT

## Diweddaru crynodeb 2007/08 o eitemau rheolaeth fewnol amherthnasol

| Rhif. | Sylwadau a risg | Argymhelliad | Ymateb rheolwyr |
|---|---|---|---|
| 1 | **Cofnodion yn y dyddlyfr** | | |
| | Mae rhai cofnodion yn cael eu paratoi a'u cynnwys gan aelod o'r tîm cyllid heb unrhyw adolygiad nac awdurdodiad annibynnol. | **Argymhelliad**<br>Mae'n arfer da i'r holl gofnodion gael eu hadolygu gan aelod arall o'r tîm cyllid cyn eu cynnwys i sicrhau eu bod yn gywir a phriodol.<br>**2007/08 – ymateb rheolwyr**<br>Bydd rheolwyr yn sicrhau bod camau yn eu lle i sicrhau bod yr holl gofnodion wedi eu hawdurdodi. | **KPMG – yr wybodaeth ddiweddaraf**<br>Tra bod proses sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob cofnod gael ei awdurdodi cyn ei gynnwys, nid oes ffordd i wirio bod y slipiau cofnodion awdurdodedig yn cynrychioli cofnodion sydd wedi eu rhoi ar y system; gan nad yw'r system yn dynodi rhif trefnol i gofnodion a roddir ar y system â llaw.<br><br>**Yr wybodaeth ddiweddaraf gan reolwyr**<br>Gellir darparu adroddiad o'r Cyfriflyfr Cyffredinol i'r Archwilwyr yn manylu ar yr holl gofnodion sydd wedi eu rhoi ar y system fel bod modd gwneud gwiriadau systematig i sicrhau mai dim ond cofnodion 'awdurdodedig' sydd wedi eu rhoi yn y cyfriflyfr. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| **2** | **Polisi dyledion drwg** | | |
| | Yn ystod yr archwiliad nodwyd nad oedd unrhyw bolisi wedi ei sefydlu ar gyfer darpariaeth dyledion drwg a bod y gwaith cyfrifyddu'n anghyson o flwyddyn i flwyddyn. | **Argymhelliad**<br>Dylid sefydlu polisi dyledion drwg. Mae dulliau cyffredin yn cynnwys:<br>- asesiad llinell wrth linell o bob dyled<br>- canran gyffredinol o'r balansau dyledwyr diwedd blwyddyn ar sail oed y dyledion a phrofiad yn y gorffennol o gyfraddau adfer<br>**2007/08 - ymateb rheolwyr**<br>Er nad yw'n fater sylweddol bydd rheolwyr yn sefydlu polisi'n unol â'r argymhellion fydd yn briodol i lefel y risg dan sylw. | **KPMG – yr wybodaeth ddiweddaraf**<br>Roedd polisi yn ei le ar gyfer 2008/09. |
| **3** | **Hawliadau rhwymedigaeth y cyflogwr** | | |
| | Mae gan yr Awdurdod ddarpariaeth ar gyfer hawliadau rhwymedigaeth cyflogwyr heb eu talu, fodd bynnag nid yw'r gwaith cyfrifyddu'n seiliedig ar dechneg amcangyfrif gyson ac mae ei sail yn newid o flwyddyn i flwyddyn. | **Argymhelliad**<br>Rydym yn argymell y bydd darpariaethau o'r fath yn aros yn faes goddrychol ac rydym yn cydnabod y gall pob hawliad fod yn unigryw, fodd bynnag argymhellir defnyddio sail amcangyfrif gyson, gan gymryd i ystyriaeth nifer yr hawliadau a'r costau a amcangyfrifir.<br>**2007/08 - ymateb rheolwyr**<br>Yn y dyfodol bydd rheolwyr yn sicrhau bod y dechneg amcangyfrif ar gyfer hawliadau rhwymedigaeth cyflogwyr heb eu talu'n gyson o flwyddyn i flwyddyn. | **KPMG – yr wybodaeth ddiweddaraf**<br>Mae darpariaethau ar gyfer hawliadau rhwymedigaeth cyflogwyr am y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2009 yn seiliedig ar nifer yr hawliadau heb eu talu ac amcangyfrif o'r gost debygol i'r Awdurdod. |
| **4** | **Cofrestr asedau sefydlog** | | |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Yn ystod yr archwiliad nodwyd nifer o fân wallau o ran fformiwlâu o fewn cofrestr asedau sefydlog yr Awdurdod, gan arwain at gyfrifiadau dibrisio anghywir. | **Argymhelliad**<br>Argymhellir bod y taenlenni lle cedwir yr asedau sefydlog yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod yr holl gostau a chyfraddau dibrisio a ddefnyddir fel sail ar gyfer cyfrifo dibrisio'n gywir.<br>**2007/08 - ymateb rheolwyr**<br>Prynwyd system gofrestr asedau newydd, Terrarius Assets, i hwyluso'r newid o UK GAAP (Arfer Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU) i Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Mae staff yn y broses o drosglwyddo data asedau sefydlog ar y system newydd. Bydd hyn yn atal unrhyw wallau o ran fformiwlâu. | **KPMG – yr wybodaeth ddiweddaraf**<br>Dim materion tebyg wedi eu nodi yn 2008/09. |
| **5** | **Diwedd y flwyddyn** | | |
| | Yn ystod yr archwiliad nodwyd nad oedd swp o anfonebau oedd yn ymwneud â rhwymedigaethau Mawrth 2008 wedi eu cynnwys yn y system gyfrifyddu tan ar ôl diwedd y flwyddyn. Arweiniodd hyn at dan ddatgan gostau a rhwymedigaethau'r Awdurdod yn y cyfrifon drafft | **Argymhelliad**<br>Rydym yn argymell bod anfonebau ar ôl diwedd y flwyddyn yn cael eu hadolygu'n llawn ar ddiwedd y flwyddyn i sicrhau bod unrhyw rai sy'n gysylltiedig â nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn cael eu cofnodi'n gywir.<br>**2007/08 - ymateb rheolwyr**<br>Mae rheolwyr bellach wedi rhoi gweithdrefnau yn eu lle i atal cam-gofnodi taliadau diwedd blwyddyn rhag digwydd eto. | **KPMG – yr wybodaeth ddiweddaraf**<br>Dim materion tebyg wedi eu nodi yn 2008/09. |

DRAFT

DRAFT

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk